YSGOL DYFFRYN TRANNON

# Canllaw

# Darllen gyda'ch plentyn

## Ffyrdd eraill o ddarllen

Ffyrdd Eraill o 'Ddarllen'

- Llyfrau sain
- E-lyfrau
- Is-deitlau ar raglenni teledu
- Apiau darllen
- Cylchgronnau, comic, ryseitiau, cyfarwyddiadau gemau



## Gwneud darllen yn hwyl!



**Plant Ieuengaf**

- Defnyddio lleisiau doniol ar gyfer cymeriadau.
- Darllen a gweithredu'r stori gyda symudiadau.
- Gadael i'r plentyn droi'r tudalennau.
- Chwilio am bethau yn y lluniau ("Ble mae'r gath?").
- Darllen cyn amser gwely fel rhan o'r drefn.

**Plant Canolradd (bl.3 a 4)**

- Darllen mewn rolau (rhiant = naratif, plentyn = cymeriad).
- Stopio a dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf.
- Creu diwedd newydd i'r stori.
- Tynnu llun hoff ran o'r llyfr.
- Darllen i anifail anwes neu degan (lleihau pwysau).





**Plant hyn (bl.5 a 6)**

- Gwrando ar lyfrau sain wrth ddarllen y testun.
- Cymharu llyfr gyda ffilm neu gyfres.
- Darllen am hobïau neu ddiddordebau personol.
- Trafod beth fydden nhw'n ei wneud yn lle'r cymeriad.
- Cystadleuaeth ddarllen neu her dudalennau.



YSGOL DYFFRYN TRANNON

### Pam bod darllen yn bwysig?

- I ddatblygu geirfa a sgiliau iaith gryfach.
- I ddeall gwersi'n well ym mhob pwnc, nid Cymraeg a Saesneg yn unig.
- I ysgrifennu'n well, gan weld sut mae brawddegau a straeon yn gweithio.
- I ddatblygu dychymyg a chreadigrwydd.
- I ganolbwyntio am gyfnodau hirach.
- I ddatblygu empathi, drwy ddeall cymeriadau a sefyllfaoedd gwahanol.
- I fagu hyder ac annibyniaeth wrth ddysgu.



# Strategaethau darllen Dysgwyr Hyn

Disgyblion Hŷn (bl.5 a 6acuwchradd)
Nod: Datblygu darllen beirniadol ac annibynnol.
Strategaethau:

- Trafod themâu a negeseuon y testun.
- Cymharu cymeriadau neu destunau.
- Nodi barn yr awdur a'i effaith.
- Darllen am wybodaeth ac ymchwil, nid straeon yn unig.
- Trafod barn bersonol ar destun.
- Defnyddio llyfrau sain, podlediadau, newyddion a gwefannau fel ffyrdd eraill o ddarllen

### Awgrymiadau Darllen:

- Ceisiwch ddarllen gyda'ch plentyn 3–4 gwaith yr wythnos.
- Gadewch i'ch plentyn ddewis llyfr sy'n eu diddori.
- Trafodwch y stori a'r lluniau wrth ddarllen.
- Canmolwch eich plentyn am geisio, hyd yn oed os yw'n gwneud camgymeriadau.
- Ailddarllen hoff lyfrau – mae hyn yn adeiladu hyder a rhuglder.
- Cofiwch arwyddo yng nghofnod darllen eich plentyn gan nodi at ble maen nhw wedi cyrraedd.

### Cwestiynau i'w gofyn:

- Beth sy'n digwydd yn y stori?
- Pwy yw'r cymeriadau?
- Beth wyt ti'n meddwl fydd yn digwydd nesaf ?
- Pam wnaeth y cymeriad wneud hynny?
- Pa ran oedd dy hoff ran?

**Mae 5–10 munud o ddarllen yn rheolaidd yn gwneud gwahaniaeth mawr dros amser.**
**Diolch am eich cefnogaeth – gyda'n gilydd gallwn helpu plant i ddatblygu cariad at ddarllen.**

# Manteision o ddarllen i, a gyda'ch plentyn.

Mae darllen yn uchel i'ch plentyn yn ei helpu i wneud synnwyr o'r hyn y mae'n ei weld, ei glywed a'i ddarllen trwy roi gwybodaeth gefndir iddynt am eu hamgylchedd datblygol.

Mae'r deialogau y bydd darllen yn eu cynhyrchu yn eu helpu i wneud synnwyr o'u bywydau eu hunain. Felly, pan fydd rhieni'n darllen yn uchel i'w plant, bydd eu geirfa yn ehangu a byddant yn dysgu mwy am y byd a nhw eu hunain.

Gall darllen ar goedd i blant ifanc yn rheolaidd eu helpu i ddatblygu eu medrau llythrennedd,cyfathrebu a chymdeithasol yn ogystal â'u sgiliauiaith.

# Strategaethau darllen cynnar

CyfnodCynnar (meithrin / derbyn / CA2 cynnar)
Nod: Datblygu cariad at lyfrau a sgiliau darllen sylfaenol.
Strategaethau:

- Darllen yn uchel yn rheolaidd i blant.
- Trafod y lluniau cyn darllen y geiriau.
- Gofyn: Beth wyt ti'n meddwl fydd yn digwydd nesaf?
- Adnabod llythrennau a synau (ffonig).
- Darllen llyfrau ailadroddus a chyfarwydd.
- Defnyddio bys i ddilyn y geiriau wrth ddarllen.
- Cysylltu geiriau â bywyd go iawn.

# Strategaethau darllen canol

Cyfnod Canol (Blwyddyn 3–6)
Nod: Datblygu rhugldera dealltwriaeth.
Strategaethau:

- Stopio a thrafod beth sydd wedi digwydd.
- Dysgu plant i ddyfalu ystyr geiriau newydd o'r cyd-destun.
- Crynhoi paragraff neu bennod.
- Darllen mewn rolau neu ddarllen ar y cyd.
- Gofyn cwestiynau: Pam? Sut wyt ti'n gwybod?
- Annog plant i wneud cysylltiadau â'u profiadau eu hunain.
- Defnyddio llyfrau sain i gefnogi rhugldeb.